## ATODLEN 4

Rheoliad 15(8)

## DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU APELIADOL

**1.** Yn yr Atodlen hon ystyr "person a benodwyd" yw person a benodwyd o dan reoliad 15(8) ac ystyr "penodiad" yw penodiad o dan y rheoliad hwnnw.

**2.** Rhaid i benodiad gael ei wneud yn ysgrifenedig ac—

(a) gall ymwneud ag unrhyw apêl neu fater penodol a bennir yn y penodiad neu ag apelau neu faterion o ddisgrifiad a bennir felly;

(b) gall ddarparu bod unrhyw swyddogaeth y mae'n ymwneud â hi yn arferadwy gan y person a benodwyd naill ai'n ddiamod neu'n ddarostyngedig i gyflawni unrhyw amodau o'r fath a bennir yn y penodiad; ac

(c) gall, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r person a benodwyd, gael ei ddiddymu ar unrhyw adeg gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag unrhyw apêl neu fater nad yw wedi cael ei benderfynu gan y person a benodwyd cyn yr amser hwnnw.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Atodlen hon, rhaid bod gan berson a benodwyd, mewn perthynas ag unrhyw apêl neu fater y mae eu penodiad yn ymwneud ag ef, yr un pwerau a dyletswyddau â'r rhai sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (7), (10), (11) a (12) o reoliad 15.

**4.**—(1) Bydd darpariaethau'r paragraff hwn, yn hytrach na rheoliad 15(6), yn gymwys i apêl sydd i'w phenderfynu gan berson a benodwyd.

(2) Os bydd yr apelydd yn mynegi ei fod yn dymuno ymddangos gerbron y person a benodwyd ac i gael ei glywed ganddo , rhaid i'r person a benodwyd roi cyfle i'r apelydd ymddangos a chael ei glywed.

(3) P'un a yw apelydd wedi gofyn am gyfle i ymddangos gerbron ac i gael ei glywed ai peidio—

(a) caiff y person a benodwyd gynnal ymchwiliad lleol neu wrandawiad arall mewn perthynas â'r apêl neu'r mater, a

(b) rhaid iddo gynnal ymchwiliad lleol mewn cysylltiad â'r apêl neu'r mater, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfarwyddo i wneud hynny.

(4) Os yw'r naill neu'r llall o is-baragraffau (2) neu (3) uchod yn gymwys, rhaid i'r person a benodwyd hysbysu'r apelydd ac unrhyw bersonau eraill sydd wedi hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod am wneud sylwadau yn unol â rheoliad 15(5) fod gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, yn ôl fel y digwydd, i'w gynnal.

(5) Pan fydd person a benodwyd yn cynnal ymchwiliad lleol neu wrandawiad arall yn rhinwedd yr Atodlen hon, caiff y Cynulliad Cenedlaethol benodi aseswr i eistedd gyda'r person a benodwyd yn yr ymchwiliad neu'r gwrandawiad ac i'w gynghori ar unrhyw fater sy'n codi, er mai'r person a benodwyd a fydd yn penderfynu'r apêl neu'r mater.

(6) Yn ddarostyngedig i reoliad 15(9), rhaid i gostau ymchwiliad lleol a gynhaliwyd o dan yr Atodlen hon gael eu had-dalu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**5.**—(1) Pan gaiff penodiad y person a benodwyd ei ddiddymu o dan baragraff 2(c) mewn perthynas ag unrhyw apêl neu fater, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, oni bai ei fod yn bwriadu penderfynu'r apêl neu'r mater ei hun, benodi person arall o dan reoliad 15(8) i benderfynu ar yr apêl neu'r mater yn ei le .

(2) Pan gaiff penodiad newydd o'r fath ei wneud, rhaid i'r broses o ystyried yr apêl neu'r mater, neu unrhyw ymchwiliad lleol neu wrandawiad arall mewn perthynas ag ef, gael ei dechrau o'r newydd.

(3) Ni fydd dim yn is-baragraff (2) yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw berson gael cyfle i wneud sylwadau o'r newydd neu addasu unrhyw sylwadau a wnaed eisoes neu eu tynnu yn eu hôl.

**6.**—(1) Rhaid ymdrin ag unrhyw beth sydd wedi'i wneud neu sydd heb ei wneud wneud gan berson a benodwyd wrth, arfer, neu'n honni arfer, unrhyw swyddogaeth y mae'r penodiad yn ymwneud â hi i bob pwrpas fel rhywbeth sydd wedi'i wneud neu heb ei wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Ni fydd is-baragraff (1) uchod yn gymwys—

(a) at ddibenion cymaint o unrhyw gontract a wnaed rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r person a benodwyd ag sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth; neu

(b) at ddibenion unrhyw achos troseddol a gafodd ei ddwyn mewn perthynas ag unrhyw beth a gafodd ei wneud neu na chafodd ei wneud fel y crybwyllwyd yn yr is-baragraff hwnnw.